CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**13eg Gorffennaf 2023**
Teitl:	**Penodi'r Cynghorydd Keith Henson i brosiect Pedair Afon LIFE**
Pwrpas yr adroddiad:	**Nodi'r penodiad**
Er:	**Gwybodaeth**
Portffolio'r Cabinet a'r Aelod o'r Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies**

1. Cefndir

Ar 29 Mehefin 2023 cafwyd cais gan 'Brosiect Pedair Afon LIFE' i gynrychiolydd o Gyngor Sir Ceredigion fod yn rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Allanol a fyddai'n cyfarfod bob 6 mis dros y tair blynedd a hanner nesaf. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal trwy Microsoft Teams i ddechrau ac yna'n symud i fod yn ymweliadau â safleoedd i weld a thrafod gwaith adfer.

Mae'r prosiect Pedair Afon LIFE yn brosiect adfer afonydd i wella amodau pedair o brif afonydd Cymru: Teifi, Cleddau, Tywi ac Wysg. Mae'r afonydd yn cael eu hystyried yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n golygu eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd eu bywyd gwyllt a phlanhigion fel eog yr Iwerydd, llysywen bendoll, gwangen, dyfrgi a chrafanc. Nod y prosiect yw gwella cyfanswm o 776km o afonydd gan ddefnyddio atebion hirdymor sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd ecolegol y pedair afon megis, gwella hygyrchedd i bysgod mudol, gwella cynefinoedd, strwythur a swyddogaeth a gwella ansawdd dŵr.

Cynigir y bydd Aelod perthnasol y Cabinet yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion fel Rhanddeiliad Allanol ar Brosiect Pedair Afon LIFE; ar hyn o bryd y Cynghorydd Keith Henson, fel Aelod y Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Nid oes ei angen
	Crynodeb:	
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Hirdymor:**	Sicrhau cynrychiolaeth ar ran Cyngor Sir Ceredigion ar brosiect Pedair Afon LIFE
	Cydweithio:	Cydweithio ag Aelodau eraill y Cyngor, i sicrhau bod Ceredigion yn ei chyfanrwydd yn cael ei chynrychioli
	Cynnwys:	Hysbysu Grŵp y Prosiect, y Cyngor a thrigolion, a hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau

	Atal:	Dim
	Integreiddio:	Gweithio gyda'r Prosiect Pedair Afon LIFE i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion
Argymhelliad:	**I'r Cyngor nodi penodiad Aelod perthnasol y Cabinet fel Rhanddeiliad Allanol i'r Prosiect Pedair Afon LIFE am gyfnod o 3 blynedd a hanner (tan ddiwedd Rhagfyr 2026), sef y Cynghorydd Keith Henson ar hyn o bryd.**	
Rhesymau dros y penderfyniad:	**Sicrhau cynrychiolaeth briodol o Gyngor Sir Ceredigion**	
Trosolwg a Chraffu:	Ddim yn berthnasol	
Fframwaith Polisi:	Ddim yn berthnasol	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Mae'n cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol ganlynol: • Creu Cymunedau Gwyrdd, Cynaliadwy ac â Chysylltiadau Da	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Ad-dalu costau teithio	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim	
Goblygiadau staffio:	Dim	
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim	
Risg(iau):	Dim	
Pwerau Statudol:	Ddim yn berthnasol	
Papurau Cefndir:	Dim	
Atodiadau:	Dim	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)	
Swyddog Adrodd:	Nia Jones Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd	
Dyddiad:	03/07/2023	